# Adroddiad Grŵp Prosiect BGC

Paratowyd gan: Teleri Elias

DRAFT

| | |
|---|---|
| **Nod y Cynllun Llesiant** | Bydd pob prosiect peilot sy'n seiliedig ar lefydd yn anelu at fynd i'r afael â'r 6 nod llesiant fel yr amlinellir yng Nghynllun Llesiant Lleol 2018-23. Byddai fframwaith yn seiliedig ar lefydd yn blaenoriaethu integreiddio ac yn cynnwys dull cyfannol a dwfn o ymdrin â chydnerthedd cymunedau ac unigolion. |
| **Ein Gwerthoedd** | Y Gymraeg, Taclo Anghydraddoldeb, Cymryd Rhan, Cynaliadwyedd, Arwain drwy Esiampl |
| **Enw'r Grŵp Prosiect** | Gwella Llesiant Cymunedol a Thaclo Caledi yn Aberteifi |
| **Cadeirydd** | **Hazel Lloyd-Lubran**, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion (CAVO) |

| **Aelodaeth y Grŵp Prosiect** *(Yr enwau mewn* ***print trwm*** *oedd yn bresennol yn y cyfarfod)* | | | |
|---|---|---|---|
| Cyngor Sir Ceredigion | **Cynghorydd Elaine Evans,** Llyr Hughes, Cyra Shimell, Non Davies, Meleri Richards, Mari Hopkins, Rob Starr, Carys Owens, Cerys Purches-Phillips, Martin Gillard, **Catrin George**, Catrin Cond, **Alison Heal**, Dr Sarah Groves Phillips, **Carwyn Young**, Bethan James, Connor Cook, Cathryn Morgan, Rob Star, **Emily Edwards**, Rhiannon John. Tîm Partneriaethau: Sara Dafydd, **Timothy Bray, Lynne Walters, Anwen Thomas, Teleri Elias.** | Tai Wales & West | **Rhiannon Ling**, Elizabeth Morgan |
| | | CAVO | **Hazel Lloyd-Lubran** Chesca Ross |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | Vicki Howell-Williams, Sue John, **Terri-Ann Patrick,** Jackson Reynolds, Megan Harris, **Jan Batty.** | Swyddfa Ben Lake | Carys Lloyd |
| Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru | William Bowen, Neil Evans, Ritchie Felton | Cyfoeth Naturiol Cymru | Thomas Vetter, Aled Davies, Rachel Jarvis, Peter Frost, Sarah Coakham |
| Barcud Ceredigion | Catrin Owen**, Sue Thomas** | Menter a Busnes | Ann Owen |
| Cyngor ar Bopeth Ceredigion | Glynis Llewelyn, **Juliet Morris,** Sue Lewis | Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru | Roxanne Treacy, **Vikki Butler** |

## CRYNODEB O GYFARFOD Y GRŴP PROSIECT

**Pwyntiau Allweddol a drafodwyd yng nghyfarfod y Grŵp Prosiect: 18/01/24**

**11.1 Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau:**
Cyflwynodd Hazel Lloyd Lubran (HLL) bawb i'r cyfarfod a nodwyd yr ymddiheuriadau canlynol:
Sue Thomas, Barcud
Rhiannon Ling, Cymdeithas Tai Wales & West

**11.2 Cofnodion a materion yn codi o'r cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 23/10/23.**
Derbyniwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol (23 Hydref) yn gywir a chytunwyd bod sylw wedi'i roi i'r materion a oedd yn codi o'r cofnodion neu y byddent yn cael eu trafod ar agenda'r cyfarfod heddiw a'u cwblhau wedi hynny.

**11.3 Penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd**
Dywedodd HLL wrth y grŵp na fyddai'r mater hwn yn cael ei ystyried am y tro. Roedd angen i'r grŵp ymgyfarwyddo â'i waith newydd / y rhaglen gyflenwi o ran Cynllun Llesiant Lleol 2023-28. Cadarnhawyd bod y grŵp yn awyddus i weld cynrychiolydd o'r Bwrdd Iechyd yn cefnogi'r gwaith hwn a dywedwyd y byddai sylw yn cael ei roi i'r mater hwn cyn y cyfarfod nesaf.

**Cam Gweithredu: Byddai'r Cadeirydd a'r Tîm Partneriaethau yn trafod yr opsiynau o ran swydd y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd â swyddogion y Bwrdd Iechyd.**

**11.4 Ystyriaeth Gychwynnol i'r Cylch Gorchwyl Drafft ac aelodaeth y Grŵp**
Roedd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cymeradwyo Cynllun Llesiant Ceredigion ac felly roedd yn awr yn dechrau edrych ar y Cynllun Llywodraethu a Chyflenwi a fyddai'n nodi'r blaenoriaethau ar gyfer gweithredu. Nododd HLL y byddent yn taro golwg ar aelodaeth y fforwm hwn ac y byddai'r Cylch Gorchwyl Drafft yn cael ei adolygu i adlewyrchu'r strwythur newydd. Dywedodd LW y byddai'r Cylch Gorchwyl yn seiliedig ar Amcan 2 yng Nghynllun Llesiant Lleol 2023-28 ac y byddai'n hwyluso'r gwaith o ystyried y blaenoriaethau a amlinellwyd yng ngweithdai'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a gynhaliwyd yn ddiweddar. Yn benodol, roedd y grŵp prosiect hwn yn rhoi sylw i waith sy'n seiliedig ar leoedd ac roedd wedi bod yn rhan o adroddiad yr astudiaeth waelodlin a oedd yn cadarnhau bod wardiau yn yr ardal hon ymhlith y rhai mwyaf difreintiedig yn y Sir. Byddai'r profiad a'r gwersi a ddysgwyd o'r gwaith hwn yn cael eu defnyddio yn y dyfodol i gynorthwyo partneriaid mewn mannau eraill ar draws y Sir a fyddai'n dymuno defnyddio dull gweithredu a oedd yn seiliedig ar leoedd. Byddai fersiwn ddrafft y Cylch Gorchwyl newydd yn cael ei dosbarthu i'r holl aelodau yn dilyn y cyfarfod heddiw.
**Cam Gweithredu - Byddai'r Cylch Gorchwyl drafft yn cael ei ddosbarthu ymhlith y partneriaid fel y gallent ei ystyried a byddai'r partneriaid yn taro golwg ar aelodaeth y grŵp ac yn mynd ati i'w hadolygu a'i diweddaru.**

**11.5 Diweddariad y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus: Cynllun Llesiant Lleol 2023-28 – Fframwaith Llywodraethu a Chyflenwi ar gyfer Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion – gan gynnwys adborth oddi wrth y Bwrdd**
Rhoddodd Tim Bray (TB) ddiweddariad byr am waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r gweithdai a gynhaliwyd gyda'r partneriaid yn ddiweddar yn seiliedig ar yr amcanion. Roedd y gweithdai yn llwyddiannus a chasglwyd llawer o wybodaeth ddefnyddiol. Hefyd, roedd yr holl adborth wedi'i ystyried. Yn sgil hyn, roedd y Bwrdd wedi creu teclyn ar gyfer olrhain camau gweithredu a oedd yn cynnwys yr amcanion. Y nod oedd tynnu sylw at y gweithgareddau o dan bob amcan ym mhrif gyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r is-grwpiau a'u gwthio ymlaen. Byddai pob un yn derbyn copi o'r ddogfen hon unwaith y byddai wedi'i dangos ym mhrif gyfarfod y Bwrdd ym mis Mawrth. Un o'r camau gweithredu a gytunwyd iddo yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Rhagfyr y llynedd oedd cadw'r strwythur 'seiliedig ar leoedd' am y tro ar gyfer y ddau grŵp, Llanbedr Pont Steffan ac Aberteifi. Roedd y Bwrdd wedi cynnig ail-enwi grŵp Aberystwyth yn grŵp thematig a fyddai'n cynnwys Ceredigion gyfan. Awgrymwyd yn y gweithdai y dylai cyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus archwilio materion yn fanwl fel y gellid darparu ffocws ar bynciau penodol. Nodwyd bod y Bwrdd o'r farn bod budd i'w gael o weld Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru yn bresennol yng nghyfarfodydd y grŵp 'seiliedig ar leoedd'.

Roedd trafodaethau yn cael eu cynnal ynglŷn â'r lansiad. Cytunwyd y byddai'n fuddiol ffurfio grŵp Gorchwyl a Gorffen i ddatblygu'r mater hwn. Dywedodd HLL fod angen i'r grŵp prosiect hwn feddwl am y cynllun llesiant lleol wrth symud ymlaen gan ystyried pa raglenni gwaith oedd yn mynd rhagddynt y byddai angen i eraill fod yn rhan ohonynt yn ogystal â'r blychau yr ydym wedi'u hadnabod yr oedd angen rhoi sylw iddynt. Roedd angen i'r 3 grŵp sy'n seiliedig ar leoedd ymwneud â'r bartneriaeth natur leol gan fod hyn yn bwysig o ran eu blaenoriaethau a'r modd y byddai'r rhain yn cael eu gwreiddio yn y cymunedau. Awgrymodd HLL y dylent edrych eto ar y data yr oedd Rob wedi'i ddarparu yn y gorffennol, gan ystyried a oedd unrhyw ddatblygiadau. Dywedodd TB y byddai'r wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei darparu unwaith y byddai Gorwel a'r dangosfwrdd ar gael.

**Cam Gweithredu – Byddai'r aelodau'n ystyried pwy fyddai'n briodol ar gyfer y grŵp Gorchwyl a Gorffen fel y gellid datblygu'r lansiad.**

**Cam Gweithredu – Byddai'r Cynllun Cyflenwi Llesiant Lleol yn cael ei rannu ag aelodau'r fforwm ar ôl iddo gael ei rannu â'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.**

**Cam Gweithredu – Byddai'r Partneriaid yn derbyn cyflwyniad yn y cyfarfod nesaf a fyddai'n nodi'r hyn sydd wedi'i gynllunio ar gyfer y dyfodol gan gynnwys y prosiectau sydd wedi'u hariannu eleni a fyddai'n cael effaith uniongyrchol ar ardal Aberteifi**
**Cam Gweithredu – Byddai'r Cynghorydd Elaine Evans yn rhoi diweddariad i'r partneriaid yn y cyfarfod nesaf am gynlluniau a blaenoriaethau Cyngor y Dref ar gyfer eleni.**

**<u>11.6</u> <u>Cyflwyniad: Proffil Clwstwr Gofal Sylfaenol De Ceredigion</u>**
Rhoddodd Jan Batty (JB), Uwch Ymarferydd Iechyd y Cyhoedd, Tîm Iechyd y Cyhoedd Hywel Dda gyflwyniad i'r aelodau. (Anfonwch neges at partneriaethau@ceredigion.gov.uk os ydych chi am gael copi o'r cyflwyniad hwn) Roedd y ddogfen hon yn rhoi trosolwg o'r heriau iechyd gan ddefnyddio data a gasglwyd o sawl ffynhonnell. Bwriad y wybodaeth hon oedd rhoi trosolwg o rai o'r prif faterion, ar y lefel ddaearyddol leiaf a oedd ar gael, a fyddai'n cael yr effaith fwyaf ar faterion iechyd o fewn y clwstwr. Roedd y bwrdd iechyd yn datblygu strategaeth gofal sylfaenol a byddai'r strategaeth hon yn darparu canllawiau cyffredinol ar gyfer practisau gofal sylfaenol a meddygon teulu.
**Cam Gweithredu - Byddai HLL yn cysylltu â Grŵp Strategol Ceredigion Iachach i ofyn pa brosiectau oedd gan y gwasanaethau gofal sylfaenol i fynd i'r afael â chyflyrau iechyd difrifol.**

Awgrymodd Lynne Walters (LW) y gellid, yn un o gyfarfodydd y dyfodol, ystyried y strategaeth Pwysau Iach Cymru Iach i atal a lleihau gordewdra yng Nghymru. Byddai JB yn mynd ar secondiad i 'Pwysau Iach Cymru Iach' a dywedodd JB wrth y grŵp mai Geinor Jones fyddai'n gweithio gyda 'Pwysau Iach Cymru Iach' yng Ngheredigion. Diolchodd HLL i JB am gyflwyniad diddorol a dymunodd yn dda iddi yn ei rôl newydd.
**Cam Gweithredu – Byddai LW yn gwahodd Geinor Jones o strategaeth Pwysau Iach Cymru Iach i un o gyfarfodydd y dyfodol.**

Ar ôl trafod ymhellach, cytunwyd y byddent yn adolygu'r rhestr aelodaeth ac awgrymwyd y byddai rhywun o'r tîm nyrsio cardiaidd arbenigol yn fuddiol i'r grŵp hwn.

**Cam Gweithredu – Byddai LW yn creu cysylltiadau â'r Ganolfan Gofal Iechyd Integredig a byddai'n cysylltu â'r tîm nyrsio cardiaidd arbenigol.**

**<u>11.7 Diweddariad am y Gronfa Ffyniant Gyffredin a'r prosiectau i ddatblygu tref Aberteifi ar y cyd â Chyngor y Dref</u>**
**<u>Catrin George (Cydlynydd Cymunedau Gwledig, Cyngor Sir Ceredigion)/ Rhiannon John (Swyddog Datblygu Trefi Gwledig)</u>**

Rhoddodd Catrin George (CG) y wybodaeth ddiweddaraf am y Gronfa Ffyniant Gyffredin gan ganolbwyntio ar brosiectau yn Aberteifi. Nododd HLL bwysigrwydd ystyried cynlluniau cyflogadwyedd drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, gan edrych ar gysylltiadau uniongyrchol â'n meddygfeydd, yn enwedig y wardiau lle ceir poblogaeth iau. Soniodd Alison Heal (AH) am Lais y Goedwig a oedd yn cynnig cyllid tan ddiwedd mis Mawrth 2025 ar gyfer gwirfoddoli strategol. Gallai hyn ymwneud â natur a chyflogadwyedd gan sicrhau sgiliau ar gyfer pobl ifanc. Hefyd, dywedodd LW y gallai fod o fudd i ardal Aberteifi greu cysylltiad â phrosiect Arfor fel y gellid canolbwyntio ar y prinder gweithwyr dwyieithog mewn gofal plant a gofal cymdeithasol. Yn ogystal, rhannwyd manylion am brosiect yr oedd Jane Powell yn ei arwain ar hyn o bryd, a oedd yn mapio mannau tyfu a rhandiroedd ar draws y sir. Byddai'r gwaith mapio hwn yn cael ei wneud tan ddiwedd mis Mawrth 2024 a gofynnwyd a fyddai modd rhannu'r canlyniadau â'r grŵp hwn. Wrth drafod yr eitem hon ymhellach, dywedodd AH wrth y grŵp fod cyllid cyfalaf o £20,000 ar gael i greu mannau tyfu newydd.
(Anfonwch neges at partneriaethau@ceredigion.gov.uk i dderbyn diweddariad ysgrifenedig gan CG).
Yn olaf o dan yr eitem hon, dywedwyd y dylid rhoi ystyriaeth i brosiectau a oedd wedi'u cyflwyno ond nad oeddent wedi'u cefnogi. Gallai'r syniadau posibl hyn gynnwys gwybodaeth bwysig i'r partneriaid a gallent gynorthwyo arweinwyr y prosiectau wrth iddynt gyflwyno ceisiadau am gyllid yn y dyfodol.

**Cam Gweithredu – Byddai rhywun yn cysylltu ag Ann Owen a byddai diweddariad am Rwydwaith Bwyd Ceredigion yn cael ei rannu ag aelodau'r grŵp.**
**Cam Gweithredu – Byddai CG yn ystyried rhannu gwybodaeth â'r Tîm Partneriaethau am brosiectau posibl ar gyfer y dyfodol a allai fod angen rhywfaint o gymorth arnynt i'w gwella cyn y posibilrwydd y gallent gael eu hail-gyflwyno.**

**11.8 Diweddariad am y Prosiect Cymunedol gydag Ysgolion Aberteifi**
**Emily Edwards (Rheolwr Partneriaeth Gymunedol – Cymuned Aberteifi)**
Cyflwynodd Emily Edwards (EE) ei hun fel y rheolwr partneriaeth gymunedol a oedd yn gweithio gyda'r ysgolion cynradd ac uwchradd yn Aberteifi. Diben y rôl oedd trawsnewid y ddwy ysgol yn ysgolion cymunedol. Rhoddodd EE gyflwyniad am y cysylltiadau ag ysgolion Aberteifi a soniodd am y modd yr oeddent yn cydweithio i drefnu nifer o ddigwyddiadau gan gynnwys sesiynau gwybodaeth, dosbarthiadau coginio i'r disgyblion a'r teuluoedd, noson gemau Aber Dads, Caffi Adolygu i ddisgyblion y chweched dosbarth yn y Mwldan, a llawer mwy. Gofynnwyd i'r aelodau gysylltu ag EE i gael mwy o wybodaeth am y digwyddiadau: emily.edwards@ceredigion.gov.uk .
**Cam Gweithredu- Byddai enw Emily Edwards yn cael ei ychwanegu at restr ddosbarthu'r fforwm hwn.**

**11.9 Diweddariad am y gwaith sgopio a oedd yn cael ei wneud o ran y Ganolfan Lles yn ardal Aberteifi gan gynnwys cyflwyniad i waith grwpiau ffocws "TA6 Alliance Leisure".**
**Diweddariad gan Carwyn Young (Rheolwr Corfforaethol Canolfannau Lles, Cyngor Sir Ceredigion)**
Rhoddodd Carwyn Young (CY) ddiweddariad i'r aelodau am y gwaith sgopio a oedd yn cael ei wneud o ran y Ganolfan Lles yn ardal Aberteifi. Roedd y gwaith ar yr astudiaeth ddichonoldeb yn mynd rhagddo'n dda a'r hyn yr oeddent wedi canolbwyntio arno yn ddiweddar oedd y gwaith ymgysylltu â'r cyhoedd. Rhan gyntaf y gwaith hwnnw oedd arolwg ar-lein a gaeodd ym mis Rhagfyr. Derbyniwyd 372 o ymatebion ar-lein a 5 o

ymatebion ysgrifenedig. Nodwyd mai isel oedd yr adborth oddi wrth y rheiny rhwng 16 a 24 oed. Byddai'r data hwn yn awr yn cael ei brosesu a'i ddadansoddi. Yn yr wythnos cyn y cyfarfod hwn, roeddent wedi cwrdd â 3 grŵp ffocws a oedd yn cynnwys unigolion a oedd wedi llanw'r arolwg. Byddai CY yn rhannu canlyniad yr arolwg gan y byddai'n ddefnyddiol i sefydliadau eraill ei ystyried. Byddai mwy o grwpiau ffocws gyda busnesau a gwasanaethau cymunedol yn cael eu cynnal. Hefyd, byddai sesiynau ymgysylltu strategol yn cael eu cynnal â'r rhanddeiliaid a fyddai'n cynnwys canolfan gofal integredig Aberteifi. Roedd Canolfan Lles Aberteifi wedi'i nodi'n flaenoriaeth ym mlaenraglen gyfalaf y Cyngor ac roedd hyn hefyd wedi'i gyflwyno fel un o brosiectau blaenoriaeth yr awdurdod lleol ar gyfer rhaglen gyfalaf ranbarthol iechyd a gofal cymdeithasol. Awgrymodd HL y gellid cysylltu â gwahanol sefydliadau er mwyn cael mwy o ymatebion oddi wrth y grŵp oedran 16-24. Byddai CY yn cysylltu ag EE i drafod y posibilrwydd o ffurfio grŵp ffocws i bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed.

**<u>11.10 Unrhyw ddiweddariadau eraill gan y Partneriaid</u>**

Dywedodd Juliet Morris (JM) wrth y grŵp fod Sue Lewis, Swyddog Datblygu Busnes, Cyngor ar Bopeth, bellach wedi gadael ei swydd. Roedd swydd Swyddog Cyfathrebu yn cael ei hysbysebu ar hyn o bryd. Roedd mwy o fanylion ar gael drwy fynd at cabceredigion.org. Hefyd, dywedodd Juliet wrth y grŵp fod fframwaith newydd ar gyfer gwasanaethau Cyngor ar Bopeth wedi'i lansio ar draws y sir. Anogwyd yr aelodau i ystyried y manylion a oedd i'w gweld ar dudalennau Cyngor ar Bopeth ar y we: www.cabceredigion.org

Dywedodd HLL wrth y grŵp y byddai gwaith ymgynghori yn cael ei wneud yn fuan ynglŷn â defnyddio Capel Tabernacl, Aberteifi yn y dyfodol. Byddai rhagor o fanylion yn cael eu rhannu yng nghyfarfodydd y dyfodol.

**<u>11.11 Eitem Sefydlog: A oes angen i ni gysylltu â Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru ynglŷn ag unrhyw un o'r materion a godwyd?</u>**

Ni chodwyd dim gan y partneriaid.

**<u>11.2 Unrhyw Fater Arall</u>**

**- Syniadau ar gyfer clipiau fideo yn seiliedig ar brofiadau bywyd.**

Dywedodd TB wrth aelodau'r grŵp fod ganddyn nhw gyllid rhanbarthol i ddatblygu 4 fideo, a fyddai'n para 90 eiliad yr un, yn seiliedig ar brofiadau bywyd. Gofynnodd TB i'r aelodau roi gwybod iddo am unrhyw syniadau y byddai modd eu cyfuno'n rhwydd i greu un fideo hirach pe byddai hynny'n cael ei ystyried fel rhywbeth priodol i'w wneud.

**- Eitemau i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus eu hystyried yn y cyfarfod nesaf ar 4 Mawrth 2024**

Ni chodwyd dim gan y partneriaid.

**Dyddiadau cyfarfodydd y dyfodol:**

Awgrymwyd 11 Ebrill fel dyddiad y cyfarfod nesaf. Byddai rhagor o ddyddiadau yn cael eu cadarnhau maes o law.

DRAFT